



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref LF/HL/0847/14  
David Melding AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a  
Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd

03 Medi 2014

Annwyl David,

**Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Dadreoleiddio: Gwelliannau mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref/Ysgol**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am graffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar welliannau i Fil Dadreoleiddio'r Deyrnas Unedig mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref/Ysgol a'i adroddiad ym mis Gorffennaf 2014.

O ddarllen yr adroddiad, rwy'n gweld bod y Pwyllgor yn ystyried bod y ddarpariaeth o ran y Cyngor Cofrestru Pedolwyr yn rhesymol. Er hynny, nodwyd bod digon o gyfle i gael gwared ar gytundebau cartref/ysgol mewn Bil y Cynulliad yn hytrach na mewn deddfwriaeth sy'n cael ei thrafod yn Senedd y Deyrnas Unedig.

Fel arfer, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar yr egwyddor gyffredinol mai Gweinidogion Cymru ddylai ddeddfu ar ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r meysydd datganoledig. Er hynny, mae rhai amgylchiadau lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol i ddarpariaeth a fyddai fel arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad gael ei gwneud mewn Biliau Seneddol, gyda chydysyniad y Cynulliad Cenedlaethol (a geir ar ffurf Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd wedi'i gymeradwyo). Yn ei lythyr i chi ar 15 Tachwedd 2011, ategodd y Prif Weinidog mai dyma oedd cred Llywodraeth Cymru. Hefyd rhoddwyd enghreifftiau i chi o sefyllfaoedd lle y byddai'n briodol i'r Llywodraeth ofyn am ddarpariaeth, neu gytuno i darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru gael ei chynnwys mewn Bil y DU .

Mewn perthynas â chynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU i ddiddymu'r gofyniad am gytundebau cartref/ysgol, roedd dau beth i mi ystyried. A fyddai'n iawn i ddiddymu'r

gofyniad yng Nghymru, ac a fyddai'n briodol gwneud hynny drwy Fil Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ar y pwynt cyntaf, rwy'n fodlon bod y cynnig i ddiddymu'r gofyniad am gytundebau cartref/ysgol yn briodol ar gyfer Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'n ddyletswydd ar bob ysgol a gynhelir i lunio cytundeb cartref/ysgol a datganiad rhieni. Hefyd, rhaid i'r corff llywodraethu gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y datganiad yn cael ei lofnodi gan y rhieni ac, o dro i dro, dylai adolygu'r cytundeb. Cyn llunio'r cytundeb cartref/ysgol a'r datganiad rhieni, neu adolygu'r cytundeb hwnnw, rhaid i'r corff llywodraethu drafod â'r rhieni.

Yn ymarferol, mae hi wedi bod yn anodd gorfodi'r cytundeb cartref/ysgol. Mae'r broses o ymgynghori â'r rhieni, llunio cytundeb cartref/ysgol a'i fonitro, a chael llofnodion y rhieni yn fwrn ar ysgolion. Nid oes modd eu gorfodi, nid oes gofyniad cyfreithiol yn dweud bod rhaid i rieni eu llofnodi, ac nid oes cosb am fethu â chydymffurfio â nhw. Felly nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyflawni diben ymarferol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod trafod â'r rhieni yn gwneud byd o les i gyrhaeddiad plentyn mewn addysg, a dyna pam bod trafod â'r teulu a'r gymuned yn un o brif themâu ein strategaeth i fynd i'r afael â'r berthynas rhwng tlodi a thangyflawni mewn addysg. I fod yn effeithiol, rhaid i ysgolion ddod o hyd i ffyrdd arloesol a chreadigol o gynnwys y rhieni a'r gofalwyr yn addysg y plentyn gan eu hysgogi i helpu'r plentyn i ddysgu gartref ac i gefnogi'r ysgol. I'r perwyl hwn, byddwn yn cyhoeddi canllawiau ac adnoddau i gefnogi'r ysgolion wrth ddatblygu eu strategaethau eu hunain. Bydd cael gwared â'r gofyniad am gytundeb cartref/ysgol yn caniatáu i ysgolion gydweithio â'r rhieni mewn ffordd sy'n gweddu i amgylchiadau'r ysgol, y disgyblion a'r rhieni, yn hytrach na gwneud hyn drwy fecanwaith penodol

Ar yr ail bwynt, sef a fyddai'n briodol diddymu'r gofyniad drwy Fil Llywodraeth y Deyrnas Unedig, eto penderfynais bod hyn yn briodol. Mae'n anodd bod yn glir ar y math o sefyllfaoedd lle mae'n briodol defnyddio Bil y Deyrnas Unedig i wneud darpariaeth mewn mater datganoledig. Roedd llythyr y Prif Weinidog ym mis Tachwedd 2011 yn rhoi rhai enghreifftiau o sefyllfaoedd or fath. Sefyllfa, er enghraifft, lle mae'r ddarpariaeth ddatganoledig yn fychan, yn dechnegol ac yn un nad yw'n gynhennus; neu pan fo'r ddarpariaeth yn briodol i Gymru ond nad oes amser i drafod darpariaeth debyg gerbron y Cynulliad.

Yn fy marn i, nid yw'r darpariaethau dan sylw'n rhai cynhennus o gofio mai'r hyn sy'n cael ei wneud yma yw diddymu ddeddfwriaeth nad yw'n cyflawni diben ymarferol bellach. Nid oes darpariaeth wreiddiol a newydd yn cael ei gwneud ar fater cytundeb cartref/ysgol. Tynnu'r gofyniad am gytundeb yw'r cyfan a wneir yma. Bydd hyn yn cael gwared ar y baich diangen ar ysgolion, sy'n cael ei ystyried yn ddim mwy na gwaith papur ategol i gamau eraill i hybu trafodaeth â rhieni. Er hynny, petai ysgol yn ystyried bod cytundeb cartref/ysgol yn ddefnyddiol, nid oes dim yn ei gwahardd rhag dal i'w ddefnyddio. Ni fyddai tynnu'r gofyniad yn rhoi neb o dan anfantais beth bynnag gan nad oedd modd gorfodi'r gofyniad hwnnw beth bynnag.

O gofio hyn, mae cael y ddarpariaeth ym Mil Dadreoleiddio'r Deyrnas Unedig yn ateb pragmatig ac amserol ar y naill law, gan barchu cymhwysedd y Cynulliad ar y llall drwy broses Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol. Felly, rwy'n ystyried bod cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil hwn gan y Deyrnas Unedig yn enghraifft o lywodraethu da ac ymarferol.

Yn benodol, rwyf wedi ystyried barn y pwyllgor, sef bod digon o gyfle i wneud y ddarpariaeth hon mewn deddfwriaeth y Cynulliad. Ym mis Gorffennaf 2013, pan oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn tynnu at y terfyn o ran cynnwys y Bil Dadreoleiddio, roedd Bil Addysg (Cymru) newydd gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad. Gan nad oedd y mater hwn wedi'i gynnwys yn y Bil Addysg pan y'i cyflwynwyd, roeddem o'r farn na fyddai'n briodol gwneud gwelliannau i'r Bil hwnnw yng Nghymru 2 na 3 i gynnwys darpariaeth ynghylch cytundebau cartref/ysgol. Hyd yn oed os oedd gwella'r Bil fel hyn yn dderbyniol, ac mae'n weddus cwestiynu hynny, byddai hynny'n wedi golygu na fyddai'r pwyllgor cyfrifol wedi gallu ystyried hyn yn ystod yr ystyriaeth o Gam 1.

Ar ôl mis Gorffennaf 2013, cyflwynwyd Bil Addysg Uwch (Cymru) a chyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Bil yn ymwneud a Chymwysterau Cymru yn cael ei symud ymlaen. Nid oedd un o'r ddau yma'n gweddu i gynnwys darpariaethau am gytundebau cartref/ysgol, o gofio cynnwys (arfaethedig) y Billiau hynny.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod deddfwriaeth ar faterion sy'n ymwneud â Chymru, sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad, yn cael ei wneud yma yng Nghymru gan ddefnyddio Bil y Cynulliad. Er hynny mae'n bwysig cydbwysu hyn gyda'r cyfleoedd a ddaw i'n rhan i sicrhau bod deddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru yn cael ei wneud mewn modd amserol. Felly, ystyriwyd ei bod yn briodol, y tro hwn, i ddefnyddio'r Bil Dadreoleiddio..

Gobeithio bod yr esboniad hwn yn help i'r pwyllgor ac rwy'n edrych ymlaen at gael y cyfle i drafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Medi.

Yn gywir



**Huw Lewis AC / AM**  
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Minister for Education and Skills